# Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

**Arholiad Aelodaeth Sylfaenol 12 Ebrill 2008**
**Papur 2: Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg**

## Adroddiad y Prif Arholwr

Safodd 19 ymgeisydd (18 ym mis Tachwedd 2007) yr arholiad am Aelodaeth Sylfaenol.

Llwyddodd 7 (8) a methodd 12 (10) - canran lwyddo o bron 37% (44%).

### Sylw cyffredinol

Calonogol yw nodi bod rhyw fflach i'w weld yn y mwyafrif o'r cynigion, er bod mwy o wallau technegol na'r disgwyl, o bosib, yn enwedig o ystyried bod pob un o'r ymgeiswyr yn debygol o ddod i gysylltiad â'r Saesneg bob dydd. Mae dyn yn synnu sut y gall pobl fod heb glywed ymadroddion fel 'pupil numbers', 'financial settlement' a 'federal schools' gan eu bod i'w gweld a'u clywed ar y cyfryngau byth a hefyd.

Gwelwyd tuedd hefyd i gyfieithu'n ddiangen o lythrennol, er enghraifft, wrth drosi 'mynd yn llawer dyfnach' yn yr ail ddarn a 'bwriad arweinyddiaeth Cyngor Gwynedd oedd…' yn y darn cyntaf. Yn yr un modd, wrth gyfieithu geiriau unigol megis 'gosodiad', 'ymrafael', 'sefydliadau' a 'rhyfeddod', cafwyd cynigion llawer mwy llwyddiannus gan ymgeiswyr a oedd wedi mentro defnyddio'u dychymyg. Rhaid meddwl am wir ystyr ac ergyd y gwreiddiol, yn hytrach na dibynnu'n ormodol ar y geiriadur!

Camddeallodd llawer gormod o'r ymgeiswyr y testun Cymraeg gwreiddiol, e.e. 'is left to argue' (yn ymrafael â), 'the order of schools' (trefn ysgolion). Rhyfedd hefyd fod unrhyw un sy'n byw yn yr 21fed ganrif yn gallu sgrifennu Saesneg mor eithriadol o wallus o ran idiom a gramadeg, e.e. 'There are lack of appropriate applicants for headships posts' a 'different mediums', 'public resources have become rarefied'.

Tueddai'r ymgeiswyr gwan i gael trafferth gyda brawddegau lle roedd rhaid newid y drefn i gyfleu'r pwyslais yn briodol yn Saesneg, e.e. 'Peth hollol naturiol ydi o…'; 'Ond nid y peth sy'n bwysig….'; '…, ond nid nhw ydi'r dyfodol chwaith', yn narn 2. I osgoi colli marciau'n ddiangen, byddai'n ddoeth i bob ymgeisydd ddarllen ei gyfieithiadau a'u hasesu fel pe baent yn ddarnau gwreiddiol. Gallai hynny nid yn unig arbed colli marciau'n ddiangen am wallau teipio, ond hefyd helpu i sicrhau bod y gwaith yn llifo'n fwy naturiol.

Yn gyffredinol, yr argraff a gaiff y marcwyr yw bod yna dri grŵp o ymgeiswyr: rhai anobeithiol o anidiomatig, rhai sy'n llwyddo i ryw raddau ond bod safon eu hymadroddi'n anghyson, ac eraill yn llwyddo i ysgrifennu Saesneg graenus a chyfleu'r testun yn gywir. Yn y dosbarth canol y mae'r mwyafrif, ac mae'r bwlch rhwng y rhai gwannaf a'r rhai gorau yn eithaf sylweddol. Mae'n galondid sylwi, fodd bynnag, dros y blynyddoedd, fod nifer yr ymgeiswyr da lawer iawn yn uwch a'r rhai anobeithiol lawer yn llai.

**Prif Arholwr (o'r Gymraeg i'r Saesneg)**
**Mehefin 2008**